# BWLIO YN YR YSGOL GYNRADD

## PROFIAD RHIENI

Cafodd aelod ifanc o'n teulu ei fwlio'n giaidd a rheolaidd gan fachgen o'r un dosbarth am gyfnod o ddwy flynedd. Dangosai symtomau o blentyn wedi'i gamdrin. Newidiodd o fod yn blentyn bywiog a hapus yn yr ysgol feithrin i fod yn biwis, trist, llwyd a gwantan. Collodd ei archwaeth am fwyd.

Yr oedd problemau mawr yn ystod y nos hefyd. Ni chysgai am oriau a bron pob nos byddai'n deffro yn dilyn hunllef. Codai yn ei gwsg, wedi gwlychu ei hun a chriai, 'Na,na ... ac enwi'r bwli.

Dyma ymateb pennaeth yr ysgol i'n cwynion:

1. Mae Joni bach yn rhy sensitif.
2. Mae Joni bach yn dweud celwydd.
3. Mae gen i X rhif o blant i edrych ar eu holau.
4. Mae angen sylweddoli bod bwlio yn mynd ymlaen ymhob ysgol.

Mae Joni bellach wedi symud ysgol ac mae'r gwahaniaeth ynddo yn syfrdanol. Fuasai neb yn credu y gallai plentyn newid cymaint. P'run bynnag, mae creithiau dyfnion yn parhau ac er nad yw eto'n wyth oed, mae eisoes yn pryderu y bydd y bwli yn ei gamdrin pan fydd y ddau yn symud i'r un ysgol uwchradd. Mae gemau rhwng ysgolion a gweithgareddau'r Urdd yn boen arno hefyd, ond croeswn y pontydd yna pan ddown atynt.

Dywedwyd wrthym fel teulu am beidio â chwyno'n swyddogol rhag ofn i ni gael ein cyhuddo o enllib!

Mae'r bwli'n parhau i fynychu'r un ysgol, a hyd y gwyddom, heb dderbyn unrhyw gosb. Diolch i'r drefn bod hawl gan deulu i ddewis ysgol i'w plentyn.

# BWLIO YN YR YSGOL UWCHRADD

## PROFIAD DISGYBL - TWM

Roeddwn yn 11 oed ac yn fy mlwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd pan gefais fy mwlio.

Rwy'n cofio'r tro cyntaf y digwyddodd e mor dda, hyd yn oed nawr, naw mlynedd yn ddiweddarach. Ro'n i'n mynd ar y bws ac fe dynnodd rhywun gefn fy siwmper. Ro'n i'n fach iawn o'm hoed, ac roedden nhw'n tynnu nghoes i am hynny o hyd.

Roedd y person yma wedi tynnu gymaint ar fy siwmper i nes bu bron i mi â syrthio drosodd. Ro'n i wedi dychryn braidd. Fe edrychais dros fy ysgwydd a gweld y ddau fachgen hyn yn edrych arna i ac yn chwerthin oherwydd y ffordd ro'n i wedi ymateb.

Fe welais i'r ddau fachgen ychydig o weithiau yn yr ysgol yn ystod fy wythnos gyntaf, ond doedden nhw ddim fel pe baen nhw wedi fy adnabod i. Ro'n i'n meddwl bod popeth yn iawn, ond mewn rhyw bythefnos fe gornelon nhw fi yn nhoiledau'r bechgyn. Fe wthion nhw mhen i i'r pan. O hynny ymlaen ro'n i'n cadw llygad am y "bully boys".

Sgil-effeithiau hyn oedd 'mod i'n cadw pethau i mi fy hun ac yn ei chael hi'n anodd i ddod i adnabod pobl eraill yn fy nosbarth. Do'n i ddim eisiau i neb ddod i wybod beth oedd yn digwydd ac ro'n i'n mynd o gwmpas ar fy mhen fy hun.

Roedden ni fel teulu newydd symud o bentref gweddol fach i gyrion y dref ac felly do'n i ddim yn mynd i'r un ysgol uwchradd â llawer o'm ffrindiau, ac o edrych yn ôl rwy'n gallu gweld nad oedd gen i unrhyw rwydwaith o gefnogaeth i droi ato.

### Cyngor

Rwy'n gallu gweld erbyn hyn 'mod i wedi gwneud camgymeriad drwy beidio â dweud wrth neb beth oedd yn digwydd. Ro'n i'n bêl-droediwr eithaf da ac fe welodd un o'r bechgyn hŷn yn y sgwad y ddau fachgen yn pigo arna i un diwrnod. Y cyfan oedd ei angen oedd ychydig o sylwadau sarhaus ac fe adawon nhw lonydd i mi. Allwn i ddim credu'r peth.

Fe wnes i gyfarfod bwli yn ystod fy wythnos gyntaf yn y brifysgol. Fe geisiodd e fy mychanu i oherwydd fy acen Gymreig – ond wnaeth e ddim llwyddo.

Doedd cael fy mwlio ddim yn brofiad braf, ond mae e'n sicr wedi fy ngwneud i'n gymeriad cryf.